Cynnig i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro

Nodyn Cefndirol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

*"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 1, paragraff 4, i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a Rheol Sefydlog 10.5:*

*Yn cytuno i enwebu'r Athro Sylvia Margaret Griffiths i'w Mawrhydi er mwyn ei phenodi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro."*

Caiff penodiadau i rai swyddi cyhoeddus statudol eu gwneud gan Ei Mawrhydi ar sail enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro, a benodir gan Ei Mawrhydi ar sail enwebiad gan y Cynulliad o dan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Mae Peter Tyndall wedi dal swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ers mis Ebrill 2008. Mae bellach wedi'i benodi'n Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon ac mae Ei Mawrhydi wedi derbyn ei ymddiswyddiad fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Bydd ei gyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2013.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwneud trefniadau ar gyfer proses benodi lawn a ffurfiol i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru newydd parhaol. Bydd hyn yn cynnwys cystadleuaeth agored a hysbysebir yn eang a chyfweliad gan banel, a bydd yn ystyried Rheol Sefydlog 10.6 sy'n nodi y caiff pwyllgor y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â swyddogaethau'r Ombwdsmon gymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd sydd i'w benodi.

Yn y cyfamser, mae angen penodi Ombwdsmon Dros Dro. Er mwyn gwneud hyn, bydd yn rhaid i'r Cynulliad gyflwyno enwebiad i'w Mawrhydi.

Yn dilyn anfon gwahoddiad i nifer fach o unigolion wneud cais am y swydd dros dro, cafodd yr Athro Griffiths ei chyfweld ar 6 Tachwedd 2013 gan banel a oedd yn cynnwys Christine Chapman, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Jocelyn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol.

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i brofi addasrwydd yr Athro Griffiths yn ôl y meini prawf allweddol a ganlyn:

- ymrwymiad cryf i gynnal hawliau dinasyddion cyffredin;
- sgiliau rhyngbersonol, dadansoddol a chyfathrebu rhagorol;
- bod yn benderfynol i sicrhau y defnyddir cwynion i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus;
- bod yn ddiduedd;
- dealltwriaeth o 'Saith egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan ac ymrwymiad iddynt, a phrofiad o gyrraedd y safonau proffesiynol hyn, neu rai tebyg;
- hanes o ddylanwadu a chyd-drafod ar lefel uwch;
- dealltwriaeth o lywodraeth leol a/neu'r GIG;
- y gallu i ennill hyder y cyhoedd a'r cyrff neu'r unigolion hynny sy'n rhan o awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

Cytunodd y Panel yn unfrydol y dylid cynnig y swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro i'r Athro Griffiths am chwe mis, neu hyd nes y gwneir penodiad parhaol.

Mae'r Atodiad yn cynnwys fersiwn gryno o CV yr Athro Griffiths. Mae wedi cadarnhau nad oes ganddi unrhyw swyddi a fyddai'n ei gwneud yn anghymwys i fod yn Ombwdsmon dros dro (ar ôl ymddiswyddo o'i swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) ac nad yw'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad.

Tachwedd 2013

ATODIAD

ENW YR ATHRO S. MARGARET GRIFFITHS
LL.M.(Cymru); LL.B.(Anrh)(Cymru); DCA; ATSI

SWYDD Athro Emeritws y Gyfraith, Prifysgol De Cymru

CYMWYSTERAU LL.B.(Anrh)(Cymru) 1973
LL.M. (Cymru) 1983
Diploma mewn Materion Defnyddwyr. Sefydliad Gweinyddiaeth
Safonau Masnach 1976.

HANES GYRFA
2003- 2010 Athro'r Gyfraith, Prifysgol Morgannwg
1997- 2002 Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Morgannwg
1983-1997 Darlithydd/Uwch-ddarlithydd/Prif Ddarlithydd y Gyfraith (Coleg Polytechnig Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg)
1973-1980 Uwch-gynghorwr Defnyddwyr, Adran Diogelu Defnyddwyr, Cyngor Sir Morgannwg Ganol

SWYDD SWYDDOGOL BRESENNOL
Cadeirydd, y Grŵp Cynghori Annibynnol (Digwyddiadau Critigol) Heddlu De Cymru

SWYDDI SWYDDOGOL BLAENOROL
Cadeirydd, Pwyllgor Safonau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Pwyllgor Archwilio/Panel Cynghori, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru
Bwrdd Llysoedd Gwent
Cyngor Cyfiawnder Sifil (Pwyllgor Mynediad i Gyfiawnder)
Pwyllgor Sefydlog Cymru'r Gyfraith
Pwyllgor Cynghori Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru

SWYDDI BLAENOROL ERAILL
Athro ar Ymweliad, Prifysgol Fudan, Shanghai, P.R. Tsieina
Athro ar Ymweliad, Prifysgol Peking, Beijing, P.R. Tsieina
Bwrdd Cynghori'r Gyfraith, Prifysgol Fetropolitan Leeds
Bwrdd Cynghori Canolfan y DU ar gyfer Addysg Gyfreithiol
Conffederasiwn o Gymdeithasau'r Gyfraith De Cymru
Consortiwm ar gyfer Mynediad i Addysg Gyfreithiol (Cadeirydd 2000-2003, Grŵp Llywio 1998-2004)
Cyngor Materion Rhyngwladol Cymru
Cymdeithasau Cysylltiedig y Gyfraith Cymru
Aseswr Arbenigol y Gyfraith, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru